**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**02-02-09**

**Presennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J.R. Jones, W. Tudor Owen, Gwilym E. Roberts a Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Nia Jones (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro) a chynrychiolwyr o Gwmni Hymans

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trefor Edwards, Keith Greenly-Jones, Linda W. Jones a Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn)

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**3. PENODI RHEOLWR BUDDSODDI NEWYDD**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cwmniau a wahoddwyd i dendro ar gyfer cytundeb buddsoddi ecwiti byd eang. O'r wyth cwmni ar y rhestr fer, penderfynwyd pa dri cwmni i'w cyfweld. Penderfynwyd ar y tri cwmni ar ôl derbyn adroddiad gan Hymans Robertson a oedd wedi asesu'r cwmniau ar bump elfen. Dewiswyd y cwmniau oedd i'w cyfweld ar ôl ystyried matrics sgorio drafft a gyflwynwyd gan Hymans Robertson ac fe sgoriwyd y cwmniau yn unol â'r matrics hwnnw.

Y tri cwmni a ddewiswyd felly oedd GMO, Newton a Fidelity. Cyfwelwyd y tri cwmni.

**PENDERFYNWYD yn dilyn y cyfweliadau, ystyriwyd yr hyn a osodwyd yn y matrics sgorio gan ei addasu yn ôl canlyniad y cyfweliadau. Yn dilyn hynny, penodwyd Cwmni Fidelity fel Rheolwr Buddsoddi Ecwiti Byd Eang.**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 1.45pm